Home Office

Open consultation

Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched 2021-2024: Galwad y Llywodraeth am Dystiolaeth

Updated 8 January 2021

Contents

Trosolwg
Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref
Crynodeb Gweithredol
Nod ac Amcanion
Sut i Ymateb

Print this page

Mae'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn cychwyn ar 10 Rhagfyr 2020

Mae'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn dod i ben ar 19 Chwefror 2021

Trosolwg

Pwrpas

Ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw o drais yn erbyn menywod a merched neu farnau arno, y rhai sydd ag arbenigedd mewn gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr, y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau ataliol, wrth ddarparu gwasanaethau ac, yn fwy cyffredinol, y cymunedau a'r sefydliadau y mae'r troseddau hyn yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol, megis y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, addysg, gorfodi'r gyfraith, llywodraeth leol, iechyd y cyhoedd a gofal iechyd.

Hyd

Deg wythnos

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i

Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched - Galwad am Dystiolaeth
Y Swyddfa Gartref
Interpersonal Abuse Unit
Violence Against Women and Girls Team
5th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

E-bost: VAWGStrategy2021@homeoffice.gov.uk

Sut i ymateb

Y ffordd hawsaf o ymateb a sicrhau bod eich barnau unigol yn cael eu hystyried yw ymateb i'r arolwg ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd yma: https://gov.uk/homeoffice/VAWG-be-heard

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref

Fel Yr Ysgrifennydd Cartref, diogelwch pobl Prydain yw fy mhrif flaenoriaeth. Dyna pam yr wyf yn hollol glir bod rhaid i ni ddefnyddio pob offeryn posib i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Nid oes gan y troseddau ffiaidd hyn le yn ein cymdeithas, ac rwyf yn benderfynol o weld mwy o gyflawnwyr yn cael eu dwyn o flaen eu gwell a'r holl ddioddefwyr a goroeswyr yn derbyn y cymorth y maent yn ei haeddu.

Mae gan droseddau sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, megis trais rhywiol, cam-drin domestig, priodas dan orfod a stelcio ganlyniadau dinistriol. Gallant gael effaith ddwys a hirhoedlog ar y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn ogystal ag ar gymunedau a chymdeithas gyfan. Credaf yn angerddol fod gennym gyfrifoldeb i helpu'r dioddefwyr a'r goroeswyr, a byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod eu hanghenion wrth wraidd ein hymagwedd.

Rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau pwysig yn y maes hwn, gan gynnwys cryfhau'r gyfraith ar droseddau megis stelcio, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

Rydym hefyd wedi darparu cyllid sylweddol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen hanfodol a sefydliadau cymorth, a mwy o ddiogelwch a chymorth i ddioddefwyr a'r rhai sydd mewn perygl trwy fesurau megis "Clare's Law", sy'n caniatáu i fenywod wirio a oes gan eu partner hanes treisgar.

Nid ydym wedi stopio yno. Nid yw cartref yn lle diogel i bawb, a dyna pam mae ein Bil Cam-drin Domestig arloesol mor hanfodol. Bydd yn ategu ein hymateb ar bob lefel - gan gryfhau amddiffyniadau i ddioddefwyr, wrth sicrhau bod cyflawnwyr yn teimlo grym llawn y gyfraith.

I gydnabod y ffaith bod dynion a bechgyn yn profi troseddau sy'n dod o fewn y diffiniad o drais yn erbyn menywod a merched, yn 2019 fe wnaethom gyhoeddi'r Datganiad Sefyllfa Dioddefwyr Gwryw trawslywodraethol cyntaf erioed.

Ond, er gwaethaf y cynnydd rydym wedi'i wneud, rwy'n sicr bod rhagor i'w wneud. Tra bod dioddefwyr yn dioddef o'r troseddau ffiaidd hyn, rhaid i ni barhau i weithio'n ddiflino i wella ein hymagwedd. Mae'n dal yn wir y bydd 1 o bob 5 merch yn y DU yn dioddef ymosodiad rhywiol yn ystod ei hoes. A dros y deng mlynedd diwethaf rydym wedi gweld fathau mwy newydd o'r troseddau hyn yn dod i'r amlwg, megis seiber-fflachio a'r hyn a elwir yn 'upskirting'. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, ac mae angen newid sylweddol yn ein hymateb.

Dyna pam y byddaf yn cyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched y flwyddyn nesaf a pham fy mod yn cyhoeddi Galwad am Dystiolaeth uchelgeisiol a phellgyrhaeddol i'w llywio. Rwyf am i'r Strategaeth newydd ysgogi gwelliannau yn yr ymdrech i dargedu cyflawnwyr; sicrhau ein bod yn gwbl barod i ymateb i natur newidiol y troseddau hyn; ac, yn bwysicaf oll, rhoi dioddefwyr a goroeswyr wrth galon ein hymagwedd.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae angen i ni dynnu ar wybodaeth a phrofiad y cyhoedd. Mae hynny'n cynnwys y rhai sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol, eu ffrindiau, eu teulu a'u cydweithwyr. Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan sefydliadau sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr, gweithwyr proffesiynol rheng flaen, ac academyddion. Bydd Nimco Ali OBE, a benodais yn ddiweddar fel Cynghorydd Annibynnol y Llywodraeth ar Fynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, yn cefnogi'r Galwad hwn am Dystiolaeth ac yn sicrhau ein bod yn clywed gan bob rhan o gymdeithas.

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn dal i fod yn rhy gyffredin ac, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mae'n effeithio ar bob un ohonom. Rwyf yn gadarn yn fy mhenderfyniad i gael gwared ar y cyflawnwyr, wrth ddarparu pob cymorth posibl i ddioddefwyr. Mae'n hanfodol ein bod, trwy ein Strategaeth newydd, yn nodi ac yn rhoi atebion ymarferol ar waith sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Dyna mae dioddefwyr y troseddau ofnadwy hyn yn ei haeddu, a dyna sy'n rhaid i ni ei gyflenwi. Trwy ymateb i'r Galwad hwn am Dystiolaeth, gallwch sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a chwarae rhan i'n helpu i gyflawni hynny.

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS

Ysgrifennydd Cartref

Crynodeb Gweithredol

Mae troseddau trais a cham-drin yn cael effaith ddwys a pharhaol ar gymdeithas. Gallant chwalu bywydau dioddefwyr, rhwygo teuluoedd, a niweidio cymunedau cyfan. Nid oes unrhyw set o droseddau yn gwneud hyn yn fwy na'r rhai sy'n dod o dan y diffiniad o drais yn erbyn menywod a merched.

Dyna pam mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth ac rydym yn benderfynol o gynyddu ein hymateb i atal y troseddau ffiaidd hyn a gwella canlyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cymdeithas lle gall pobl fyw heb ofni camdriniaeth na thrais. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan ein strategaethau trais yn erbyn menywod a merched yn 2010 a 2016 gan gydnabod effaith anghymesur y mathau hyn o droseddau a'r effaith gyfyngol y gall ei chael ar bobl o ran cyrraedd eu potensial llawn.

Er bod trais yn erbyn menywod a merched yn cyffwrdd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phob un ohonom, mae'r troseddau erchyll hyn yn parhau i fod yn llawer rhy gyffredin ac wedi'u cuddio yn ein cymdeithas. Mae trais yn erbyn menywod a merched yn fath o wahaniaethu ac yn groes i hawliau dynol. Ein cydgyfrifoldeb yw nodi a mynd i'r afael ag agweddau, patrymau ymddygiad ac arferion gormesol sy'n ceisio sicrhau pŵer a rheolaeth dros ddioddefwyr a goroeswyr y troseddau hyn.

Bu dau ailadroddiad o'r strategaeth trais yn erbyn menywod a merched ers 2010. Yn yr amser hwnnw, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag ystod o droseddau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) stelcio, treisio, cam-drin wedi'i seilio ar 'annrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn ogystal â'r risgiau a'r niwed sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw. Er bod llawer wedi'i gyflawni dros y degawd diwethaf, mae mwy i'w wneud o hyd. Mae'r risgiau o drais yn erbyn menywod a merched a oedd yn bodoli ddeng mlynedd yn ôl yn dal i fodoli, ond mae cyflymder y newid cymdeithasol a thechnolegol yn golygu bod mathau newydd ac esblygol o droseddau yn erbyn menywod a merched yn dod i'r amlwg yn barhaus. Mae angen Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r troseddau hyn yn effeithiol.

Rydym yn gwybod bod y troseddau hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ac ni fyddwn byth yn colli golwg ar yr effaith ddinistriol ac eang y gall trais yn erbyn menywod a merched ei chael. Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi cyhoeddi'r Datganiad Sefyllfa Dioddefwyr Gwryw trawslywodraethol cyntaf er mwyn egluro a chryfhau ein hymateb i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig, trais rhywiol, stelcio a'r hyn a elwir yn gam-drin wedi'i seilio ar 'anrhydedd'. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod nifer sylweddol o ddynion a bechgyn yn profi troseddau ymosodol a threisgar sy'n cael eu dal o dan ymbarél trais yn erbyn menywod a merched. Yn yr un modd, rydym hefyd yn cydnabod y gall rhai o'r troseddau hyn gael eu cyflawni gan fenywod hefyd.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi taflu goleuni ar y problemau presennol o gyrchu gwasanaethau yn hawdd ac yn gyflym ac, y straen ar wasanaethau cymorth ar draws y maes cyfan o niweidiau cudd. Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu oddi wrth y gwendidau yn ein systemau a'n strwythurau y mae'r pandemig wedi'u hamlygu mor agored ac yn gweithredu arnynt. Rhaid i ni i gyd sicrhau y cedwir ymwybyddiaeth yn uchel ac yr anogir pob rhan o'r gymdeithas i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, boed yn ddarparwyr gwasanaeth, cyflogwyr, ysgolion, ffrindiau neu gymdogion.

Rydym yn cydnabod y gall troseddau ym maes trais yn erbyn menywod a merched hefyd gynnwys, neu fod yn gysylltiedig â, cham-drin domestig. Gall ymatebion i'r Galwad hwn am Dystiolaeth, wrth gwrs, gynnwys deunydd sy'n berthnasol i gam-drin domestig. Fodd bynnag, o ystyried y niwed a achosir, a'r cynnydd mewn cam-drin domestig a adroddwyd yn ystod cyfyngiadau cenedlaethol COVID-19, ymdrinnir â hyn mewn Strategaeth ategol arall a fydd yn dilyn yn ddiweddarach yn 2021. Bydd y Strategaeth Cam-drin Domestig yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil Cam-drin Domestig pwysig, a phroses ymgynghori benodol ddilynol. Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu oddi wrth y gwendidau yn ein systemau a'n strwythurau y mae'r pandemig wedi'u hamlygu mor agored ac yn gweithredu arnynt.

Mewn ymateb i'r dirywiad mewn atgyfeiriadau, cyhuddiadau, erlyniadau ac euogfarnau am achosion treisio a welsom yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn cynnal adolygiad i'r ymateb cyfiawnder troseddol i dreisio, a fydd yn adrodd gyda chynllun gweithredu. Bydd y Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched hefyd yn ategu'r cynllun gweithredu hwn sydd ar ddod .

Rydym yn lansio'r Galwad hwn am Dystiolaeth er mwyn llywio'r Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched - o ystyried mynychder trais yn erbyn menywod a merched, rydym yn cydnabod bod gan y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr, gyfoeth o wybodaeth a phrofiad ynghylch ac o'r troseddau hyn ac rydym yn awyddus i gael y wybodaeth hon yn uniongyrchol gan oroeswyr, dioddefwyr, tystion a'r rhai sy'n gweithio i'w cefnogi. Cwmpas daearyddol y Galwad am Dystiolaeth yw Cymru a Lloegr, er ein bod yn croesawu ymatebion o rannau eraill o'r DU. Er bod llawer o agweddau ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched wedi'u datganoli i Gymru, nid yw trosedd, plismona a chyfiawnder troseddol. O ystyried y meysydd lle mae materion yn croesi drosodd, ac i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn effeithiol yng nghyd-destun Cymru, bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth yn effeithiol wrth fynd i'r afael â'r troseddau hyn a chefnogi dioddefwyr yng Nghymru a Lloegr.

Nod ac Amcanion

Nod y Galwad hwn am Dystiolaeth yw ein galluogi i ddeall gwir raddfa troseddau trais yn erbyn menywod a merched a'u heffaith, y mesurau a allai helpu i nodi ac atal y troseddau hyn, i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth a'r gwasanaethau cyfredol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael â nhw, a nodi enghreifftiau o arfer gorau.

Maint

Mae troseddau trais yn erbyn menywod a merched yn droseddau cudd ac felly mae ein dealltwriaeth o'r maint a'r mynychder yn gyfyngedig. Er enghraifft, rydym yn gwybod y gall trais yn erbyn menywod a merched effeithio ar unrhyw berson waeth beth yw eu cefndir, ethnigrwydd, crefydd, oedran neu ryw, ond ychydig o ddealltwriaeth sydd gennym o sut y gellir dadansoddi hyn ar gyfer pob math o drosedd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn nodi'r tueddiadau a'r ysgogwyr y tu ôl i drais yn erbyn menywod a merched.

Fodd bynnag, mae rhai tueddiadau eang y gellir eu nodi yn y data. Gan gymryd troseddau treisio ac ymosodiadau rhywiol fel enghraifft, gwyddom o'r Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2020, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, bod 2.2% o oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi profi ymosodiad rhywiol (gan gynnwys troseddau wedi'u ceisio) yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Roedd hwn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2.9%), wedi'i ysgogi gan y gostyngiad sylweddol mewn dinoethiad anweddus neu gyffwrdd rhywiol digroeso (2.5% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 o'i gymharu ag 1.9% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020).

Er mai dim ond cipolwg ar wir ffigur y treisio a ddigwyddodd, cofnodwyd mwy na 55,000 o ddigwyddiadau trais rhywiol gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf (ffigurau 2018/19 a 2019/20). Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 oedd y flwyddyn gyntaf ers 2012 heb unrhyw gynnydd mewn achosion, fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn fwy na dwbl y ffigur ar gyfer 2013/14. Efallai y bydd y ffigurau hyn yn awgrymu ein bod yn gwella wrth gofnodi trais rhywiol, ac eto mae tystiolaeth hefyd gan wasanaethau cymorth i awgrymu nad yw'r mwyafrif o ddigwyddiadau trais rhywiol yn cael eu riportio na'u cofnodi yn yr ystadegau hyn. Er bod arolwg yr ONS yn adlewyrchu cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau ymosodiadau rhywiol o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2014, dim ond ychydig o newid a ddangoswyd yn nifer y troseddau hyn a gofnodwyd gan yr heddlu o'r flwyddyn flaenorol (o 154,213 i 154,113 o droseddau). Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 oedd y flwyddyn gyntaf ers 2012 heb unrhyw gynnydd. Gallai hyn awgrymu bod dylanwad gwelliannau mewn arferion cofnodi ar gyfer y drosedd benodol hon yn lleihau. Ar gyfer is-set o heddluoedd sy'n darparu data i Hyb Data'r Swyddfa Gartref, roedd 23% o'r troseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 yn droseddau nad oeddent yn ddiweddar (y rhai hynny a ddigwyddodd fwy na 12 mis cyn cael eu cofnodi gan yr heddlu) . Er bod troseddau nad ydynt yn ddiweddar yn cyfrannu'n bwysig at godiadau mewn troseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu mewn blynyddoedd blaenorol, yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae adroddiadau o droseddau nad ydynt yn ddiweddar wedi lleihau ac felly nid ydynt bellach yn cyfrannu at gynnydd cyffredinol mewn troseddau rhywiol.

Gwyddom, ers ysgrifennu'r Strategaeth flaenorol, fod trais yn erbyn menywod a merched wedi esblygu ac yn cwmpasu llawer mwy o ymddygiadau a mathau o droseddau. Rydym hefyd yn gwybod bod ein dealltwriaeth o gyffredinrwydd ac achosion y mathau mwy newydd hyn o drais yn erbyn menywod a merched yn gyfyngedig. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod cam-drin ym maes gwneud oedau ar-lein trwy apiau gwneud oedau wedi dod yn broblem wirioneddol i bobl iau, gan niweidio parch ac o bosibl berthnasoedd yn y dyfodol, neu weithredu fel magl ar gyfer erledigaeth bellach. Ac eto nid oes gennym lawer o afael ar faint o bobl sy'n cael eu heffeithio na faint sydd angen neu sy'n ceisio cymorth. Nid yw troseddau megis seiber-fflachio, sydd hefyd yn bryder cynyddol i bobl ifanc, er eu bod o bosibl yn droseddol, o reidrwydd yn cael eu dal yn ddigonol neu'n gywir mewn data swyddogol, os o gwbl. Mae adroddiadau cynyddol hefyd o gam-drin a rhywiaeth eithafol yn dod i'r amlwg yn y fforymau ar-lein a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag apiau newydd, er nad oes ffigurau cywir ar gyfer hyn ar gael eto.

Bydd y Galwad hwn am Dystiolaeth yn ceisio amlygu meysydd pryder ar y troseddau cudd hyn a darparu rhywfaint o gyd-destun i'r camau sy'n dod allan o'r Strategaeth.

Effaith

Nod allweddol y Galwad hwn am Dystiolaeth yw dal profiad byw y rhai y mae trais yn erbyn menywod a merched yn effeithio arnynt a deall sut y gallwn ddefnyddio profiadau a gwersi a ddysgwyd i wella ein hymateb i'r troseddau hyn. Os ydym am gynyddu ein hymateb i atal y troseddau ffiaidd hyn a gwella canlyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr, mae'n hanfodol cael gwell dealltwriaeth o'r effaith.

Gall fod yn anodd mesur effaith trais yn erbyn menywod a merched, o ystyried ei natur gudd. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Gartref wedi amcangyfrif y bu costau economaidd a chymdeithasol cam-drin domestig mewn un flwyddyn (a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017) oddeutu £66 biliwn, yn uwch nag unrhyw fath arall o drosedd unigol. Mae amcangyfrifon blaenorol ar gyfer treisio (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015) wedi amcangyfrif costau o £4.8 biliwn. Er bod llawer ohono'n parhau i fod yn gudd, mae'n amlwg bod y troseddau hyn yn cael effaith sylweddol ar y gymdeithas gyfan.

Atal a chymorth

Yn aml gall troseddau trais yn erbyn menywod a merched dderbyn cymorth anghyson neu hyd yn oed annigonol gan y system pan gânt eu riportio. Yn aml nhw yw'r troseddau mwyaf heriol ac anodd i arwain at erlyniadau'n llwyddiannus, ac mae'r dirywiad yn y nifer o euogfarnau treisio yn achos penodol, lle mae cyn lleied ag 1% o honiadau treisio bellach yn arwain at euogfarn a lle mae un o bob pedwar dioddefwr yn tynnu eu cefnogaeth i erlyniad yn ôl. Mae'n bwysig bod y duedd hon, a thueddiadau llai clir mewn mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched, yn cael eu deall yn llawn a'u trin er mwyn leihau effaith y troseddau hyn ar gymdeithas.

Rydym hefyd yn gwybod mai ond ychydig sydd ar gael o ran atal, yn arbennig ar gyfer y mathau mwyaf diweddar o drais yn erbyn menywod a merched. Prin yw'r dystiolaeth hefyd ar effeithiolrwydd rhaglenni cyflawnwyr ar gyfer llawer o droseddau trais yn erbyn menywod a merched. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau ar waith i atal y troseddau hyn rhag digwydd a ddarperir gan arbenigwyr lleol, yn aml gyda chefnogaeth Llywodraeth ganolog. Er enghraifft, prosiectau i helpu menywod sy'n ymwneud â gwaith rhyw, grŵp sydd mewn perygl arbennig o drais yn erbyn menywod a merched, i gael eu cefnogi gyda chyngor a mesurau gweithredol i gadw eu hunain yn ddiogel. Mae ymagweddau 'system gyfan', fel yr un a fabwysiadwyd yn Ne Cymru gyda chefnogaeth Cymorth Menywod Cymru ac asiantaethau partner eraill, hefyd wedi llwyddo i fynd i'r afael ag atal erledigaeth a darparu cymorth cofleidiol.

Mae gwasanaethau cymorth ar waith hefyd trwy linellau cymorth megis y rhai sy'n cael eu rhedeg gan Rape Crisis a'r Llinell Gymorth Revenge Porn. Rydym yn gwybod bod y gwasanaethau hanfodol hyn yn chwarae rhan allweddol wrth helpu pobl i ddod trwy brofiadau trawmatig. Gall eu gwaith hefyd helpu i amlygu, trwy gynyddu nifer y galwadau/cysylltiadau, pan fydd galw mawr yn digwydd ac felly pan fydd effaith y drosedd ar gymdeithas ar ei huchaf.

Defnyddio'r dystiolaeth

Bydd y dystiolaeth a gesglir trwy'r ymarfer hwn yn llywio cynnwys, gweithredoedd a chyfeiriad cyffredinol Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched i redeg rhwng 2021 - 2024 sy'n cwmpasu hyd y Senedd hon. Bydd y Strategaeth hon yn diffinio gweledigaeth uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer parhau â'i brwydr i fynd i'r afael â cham-drin a thrais yn erbyn menywod a merched. Er mwyn gwneud y Strategaeth mor effeithiol ag y gall fod, rydym am gasglu ystod eang o wybodaeth. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n gweithio ar drais yn erbyn menywod a merched neu droseddau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin domestig, ac yn annog sefydliadau sydd â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i ddarparu gwybodaeth fanwl am y materion y mae'r cyhoedd yn eu profi.

Rydym hefyd am glywed yn uniongyrchol gan ddioddefwyr/goroeswyr a'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan drais yn erbyn menywod a merched. Rydym yn cydnabod bod pawb sy'n dioddef o ganlyniad i drais yn erbyn menywod a merched yn dod o amgylchiadau unigryw a bod ganddynt nodweddion unigryw a all effeithio ar eu profiad. Mae hyn yn cynnwys ffactorau oedran, ethnigrwydd, crefyddol ac anabledd a all lunio profiad rhywun o niwed a mynediad at wasanaethau cymorth. Rydym am i'n Strategaeth newydd adlewyrchu'r profiadau amrywiol hyn a mynd i'r afael â'u gwahanol anghenion. ##Ein Hymagwedd

Rydym yn cynnig mabwysiadu ymagwedd dau linyn i ganiatáu trafodaeth fanwl ond strwythuredig i fynd i'r afael â rhai themâu allweddol megis lleihau mynychder a difrifoldeb trais yn erbyn menywod a merched trwy fesur ataliol a chefnogol; gwella canlyniadau i ddioddefwyr/goroeswyr trwy drin y troseddau hyn yn well yn y system cyfiawnder troseddol; a nodi mathau newydd o drais yn erbyn menywod a merched fel y gellir mynd i'r afael â nhw'n ddigonol.

Bydd y llinyn cyntaf yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr a goroeswyr a chyda'r cyhoedd. Fel rhan o'n hail linyn, rydym yn awyddus i glywed gan y rhai sy'n cynrychioli dioddefwyr, y rhai sy'n helpu i ddelio â thramgwyddwyr, ac eraill sydd â throsolwg o faterion ym maes trais yn erbyn menywod a merched. Byddwn hefyd yn cynnal grwpiau ffocws manwl ac yn gwahodd aelodau o'r sector gwirfoddol, academyddion ac arbenigwyr ym maes trais yn erbyn menywod a merched a chyrff cyhoeddus. Gyda'i gilydd, byddai'r ddau ymagwedd hyn yn darparu tapestri cyfoethog o ddata a syniadau i ddod i gasgliadau a chamau gweithredu i gyflawni'r mesurau llwyddiant.

Bydd ymgysylltiad deng wythnos â'r cyhoedd yn ein helpu i gael ymdeimlad cliriach o sut mae'r troseddau hynny'n esblygu, deall pam nad yw troseddau'n cael eu riportio'n ddigonol, sicrhau bod ein hymateb yn cadw i fyny â thechnoleg, ac i gysylltu â phrofiad y dioddefwr.

Llinyn Cyntaf - Data ymarferol

Nod ffocws y rhan hon o'r Galwad am Dystiolaeth yw ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn deall beth sy'n gweithio'n dda a beth y gallwn ei wneud yn well. Trwy ddefnyddio ystod o ymagweddau i roi cyhoeddusrwydd i'n Galwad am Dystiolaeth, rydym am estyn allan a chasglu tystiolaeth gan y cyhoedd, gan gynnwys pobl nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu ag ymgyngoriadau'r Llywodraeth. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl a allai deimlo nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn strategaethau blaenorol neu sy'n teimlo nad oedd eu hamgylchiadau'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau presennol. Mae'r arolygon yn agored i'r rhai 16 oed neu'n hŷn, er y bydd y broses ehangach yn darparu cyfleoedd i sicrhau bod profiadau ehangach plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried.

Meysydd a Gwmpesir yn yr Arolwg Cyhoeddus

Er mwyn atal, nodi a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn effeithiol, mae'n hanfodol bod barnau'r cyhoedd yn dylanwadu ar ein gwaith parhaus yn y maes hwn. Bydd cydran holiadur ar-lein o'r Galwad am Dystiolaeth yn anelu at gipio llais y cyhoedd a sut maent yn teimlo am y troseddau hyn.

Trais yn erbyn Menywod a Merched a'r Niwed Mae'n ei Achosi i Gymdeithas

Rydym yn cydnabod bod mathau o drais a nodwyd yn erbyn menywod a merched sydd wedi effeithio ar lawer o bobl o gefndiroedd amrywiol. Fodd bynnag, hoffem ddeall mwy am y troseddau hyn fel y gallwn ddeall yn well y gwir ddarlun mewn cymdeithas.

Hoffem i ymatebion i'r Galwad am Dystiolaeth amlinellu rhai o'r mathau o droseddau y mae ymatebwyr yn credu sy'n dod o dan y term 'trais yn erbyn menywod a merched', ac i ddisgrifio'r niwed y maent yn ei achosi i ddioddefwyr a chymdeithas. Hoffem hefyd ddeall barn y cyhoedd ynghylch a yw'r troseddau hyn yn cynyddu o ran mynychder (yn unigol neu yn eu cyfanrwydd) a pha grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf.

Profiadau Uniongyrchol Trais yn erbyn Menywod a Merched

Mae gan bob unigolyn y mae trais yn erbyn menywod a merched yn effeithio arno brofiad unigryw y gallwn ddysgu ohono, trwy enghreifftiau o arfer da sydd wedi helpu pobl trwy eu trawma neu, yn anffodus, lle nad oedd cefnogaeth cystal ag y dylai fod.

Rydym yn ceisio barn dioddefwyr a goroeswyr yn uniongyrchol fel rhan o'r Galwad am Dystiolaeth hon, trwy arolwg y byddwn yn ei ddosbarthu trwy wasanaethau cymorth arbenigol. Bydd y sefydliadau hyn yn gallu darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai sy'n ymateb.

Mae croeso hefyd i ddioddefwyr a goroeswyr gwblhau'r arolwg cyhoeddus, pe baent yn teimlo'n gyffyrddus yn gwneud hynny.

Troseddau Trais yn Erbyn Menywod a Merched sydd yn esblygu ac yn dod i'r amlwg

Hoffem i ymatebion i'r Galwad am Dystiolaeth nodi mathau o droseddau trais yn erbyn menywod a merched sydd yn esblygu ac yn dod i'r amlwg. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried barnau'r cyhoedd ar yr hyn y mae ein hymatebwyr yn credu yw'r troseddau trais yn erbyn menywod a merched sydd yn dod i'r amlwg ac yn esblygu ac yn ein galluogi i ystyried y goblygiadau i lywio datblygiad y Strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched.

Dioddefwyr Gwryw

Er gwaethaf y ffaith bod y Strategaeth Terfynu Trais yn erbyn Menywod a Merched yn cipio'r holl ddioddefwyr, roedd angen y Datganiad Sefyllfa Dioddefwyr Gwryw, a gyhoeddwyd yn 2019, i archwilio'r heriau a'r rhwystrau penodol y mae dioddefwyr gwrywaidd yn eu profi o ran ceisio cymorth, ac mae'n amlygu adnoddau sy'n ddefnyddiol i gomisiynwyr lleol, wrth gynnal bod trais yn erbyn menywod a merched yn drosedd anghymesur o ran rhyw.

Mae yn ein hymrwymiad i ddynion sy'n dioddef o'r troseddau hyn yr hoffem gael ymatebion i'r Galwad am Dystiolaeth i ystyried yn well sut mae'r troseddau hyn yn effeithio ar ddioddefwyr gwryw. Dim ond trwy ddeall y materion allweddol y gallwn ni wir adlewyrchu profiadau dioddefwyr gwryw yn y Strategaeth newydd, a fydd yn ystyried yr ymagwedd, y driniaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar y grŵp hwn.

Ail Llinyn - Data Strategol

Ein hail linyn fydd casglu gwybodaeth strategol trwy gyflwyniadau a grwpiau ffocws gan academyddion ac arbenigwyr yn y maes hwn a'r rhai sy'n archwilio troseddau trais yn erbyn menywod a merched sydd yn dod i'r amlwg ac yn esblygu.

Bydd ein grwpiau ffocws yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y meysydd dilynol:

- Tramgwyddwyr a rheoli tramgwyddwyr
- Treisio a thrais rhywiol
- Stelcio ac aflonyddu (gan gynnwys aflonyddu cyhoeddus ac yn y gweithle) Dioddefwyr mudol a rhwymedigaethau rhyngwladol
- Camdriniaeth 'wedi'i seilio ar anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod
- Dioddefwyr/goroeswyr LGBTQ+
- Dioddefwyr/goroeswyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- Dioddefwyr/goroeswyr Byddar ac Anabl
- Dioddefwyr/goroeswyr gwrywaidd
- Niweidiau ar-lein a cham-drin wedi'i alluogi gan dechnoleg
- Plant a phobl ifanc
- Rhywiaeth eithafol
- Dyletswydd gofal: cyflogwyr ac addysg
- Puteindra a gwaith rhyw, camfanteisio masnachol, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern
- Cam-drin economaidd
- Gweithio amlasiantaethol
- Y System Cyfiawnder Troseddol Iechyd meddwl (gan gynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio)
- Comisiynu lleol - Datganiad Cenedlaethol Disgwyliadau

Cyflwyniadau ysgrifenedig

Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau arbenigol sydd â chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth. Bydd y ffynhonnell werthfawr hon o wybodaeth yn cael ei hystyried yn ganolog wrth gasglu barnau'r sector am drais yn erbyn menywod a merched i'n helpu i ysgrifennu'r Strategaeth newydd.

Rydym hefyd yn croesawu cyflwyniadau gan academyddion ac eraill sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes trais yn erbyn menywod a merched. Gall cyflwyniadau ysgrifenedig gynnwys cyfrannu data cyhoeddedig, ymchwil ac adroddiadau eraill sy'n berthnasol i drais yn erbyn menywod a merched.

Er mwyn cynorthwyo ein dealltwriaeth o gwmpas troseddau y dylid eu dosbarthu fel trais yn erbyn menywod a merched, byddwn yn gwahodd y sector i gymryd rhan yn y Galwad hwn am Dystiolaeth i ddarparu gwybodaeth bellach am droseddau mwy sefydledig ochr yn ochr â data

newydd ar fathau o drais yn erbyn menywod a merched sydd yn esblygu ac sydd newydd ddod i'r amlwg. Byddwn yn ystyried unrhyw fath o drosedd sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, ochr yn ochr ag edrych yn benodol ar drais rhywiol, ymosodiadau rhywiol, stelcio, cam-drin domestig, priodas dan orfod, cam-drin 'wedi'i seilio ar anrhydedd' fel y'i gelwir, rhannu delweddau personol heb gydsyniad, seiber-fflachio, anffurfio organau cenhedlu benywod, aflonyddu rhywiol, aflonyddu ar-lein ac eraill.

Rydym yn chwilio am gyflwyniadau i gynnwys cwmpas, graddfa a chyffredinrwydd y troseddau hyn, lle mae hynny'n bosibl. Gan arddangos mor glir â phosibl pa mor fawr o broblem yw pob math o drosedd trais yn erbyn menywod a merched, neu pa mor dreiddiol yw'r troseddau hyn ar draws cymdeithas ac a oes grwpiau penodol sy'n cael eu heffeithio'n ddyfnach. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybodaeth am y sbectrwm o fathau o droseddau sy'n effeithio ar grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai â gwendidau penodol.

Mae gwybodaeth am weithgareddau i gynorthwyo atal hefyd yn bwysig, gan helpu i ddiffinio ffyrdd y bydd y Strategaeth newydd yn atal pobl rhag dod yn ddioddefwyr yn y lle cyntaf. Bydd ymatebion sy'n darparu enghreifftiau o raglenni atal llwyddiannus a syniadau ar sut y gallent gael eu hehangu yn ein helpu i lunio gweithredoedd pellach gan y Llywodraeth i leihau niwed.

Yn gysylltiedig ag atal, ac yr un mor bwysig wrth atal troseddau, fyddai unrhyw dystiolaeth y gall arbenigwyr, sefydliadau ac elusennau ei darparu ar dramgwyddwyr. Bydd y Strategaeth newydd yn cynnwys gwaith o amgylch tramgwyddwyr, ac mae'n bwysig ein bod yn casglu cymaint o dystiolaeth ag y gallwn ar y sawl sy'n cyflawni'r troseddau hyn a'r hyn sy'n gweithio i'w helpu i stopio.

Ni ellir ystyried bod unrhyw Strategaeth yn llwyddiant oni bai ei bod yn cyflenwi ar gyfer dioddefwyr, felly hoffem gyflwyno tystiolaeth i nodi gwasanaethau a chymorth i ddioddefwyr yn glir gan y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith hwn neu sydd â gwybodaeth arbenigol amdano. Gallai amlygu arfer gorau yma ochr yn ochr â rhaglenni atal, agor cyfleoedd i ehangu. Bydd nodi meysydd lle mae darpariaeth gwasanaeth yn annigonol neu hyd yn oed yn absennol yn helpu i nodi ffrydiau gwaith penodol i'w gwella.

Yn yr un modd, byddai cyflwyniadau sy'n ymwneud ag ymateb y system cyfiawnder troseddol a systemau arall i droseddau trais yn erbyn menywod a merched hefyd yn cael eu croesawu. Rydym yn gwybod, er bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn sawl maes, bod llawer y gellir ei wneud o hyd i wella profiad y dioddefwr ac i sicrhau bod y gosb yn cyd-fynd â'r drosedd a bod y niwed i ddioddefwyr a'u teuluoedd yn cael ei leihau, yn arbennig o ran troseddu mynych.

Byddem hefyd yn awyddus i ddeall unrhyw faterion allweddol eraill ym maes trais yn erbyn menywod a merched yr hoffech eu hystyried ar gyfer y Strategaeth. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch rhyngweithio â meysydd troseddu eraill neu feysydd lle gwelir troseddau trais yn erbyn menywod a merched yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Felly, rydym yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig i gwmpasu'r chwe maes hyn.

Sut i Ymateb

Y ffordd hawsaf o ymateb a sicrhau bod eich barn unigol yn cael ei hystyried yw ymateb i'r arolwg ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd yma https://gov.uk/homeoffice/VAWG-be-heard

Rydym hefyd yn croesawu cyflwyniadau gan academyddion ac eraill sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes trais yn erbyn menywod a merched. Gall cyflwyniadau ysgrifenedig gynnwys cyfraniad data cyhoeddedig, ymchwil ac adroddiadau eraill sy'n berthnasol i drais yn erbyn menywod a merched.

Gellir anfon cyflwyniadau ysgrifenedig at VAWGStrategy2021@homeoffice.gov.uk

Os na allwch chi neu'r bobl rydych chi'n eu cynorthwyo gwblhau arolwg ar-lein neu os hoffech gael fersiwn fwy hygyrch, neu iaith arall, mae fersiynau ychwanegol o'r arolwg ar gael. Cysylltwch â'r tîm trwy'r cyfeiriad e-bost uchod neu trwy'r post yn:

> Ymgynghoriad Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched 2020
> Y Swyddfa Gartref
> Interpersonal Abuse Unit
> Violence Against Women and Girls Team
> 5th Floor, Fry Building
> 2 Marsham Street
> Llundain
> SW1P 4DF

Is this page useful?

Yes | No | There is something wrong with this page

Coronavirus (COVID-19)

Coronavirus (COVID-19): guidance and support

Brexit

Check how the new Brexit rules affect you

Services and information

Benefits
Births, deaths, marriages and care
Business and self-employed
Childcare and parenting
Citizenship and living in the UK
Crime, justice and the law
Disabled people
Driving and transport
Education and learning
Employing people
Environment and countryside
Housing and local services
Money and tax
Passports, travel and living abroad
Visas and immigration
Working, jobs and pensions

Departments and policy

How government works
Departments
Worldwide
Services
Guidance and regulation
News and communications
Research and statistics
Policy papers and consultations
Transparency and freedom of information releases

Help | Privacy | Cookies | Contact | Accessibility statement | Terms and conditions
Rhestr o Wasanaethau Cymraeg | Built by the Government Digital Service

OGL All content is available under the Open Government Licence v3.0, except where otherwise stated

© Crown copyright